# Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 14: Rheolaethau Gweithfeydd Hylosgi Canolig a Generaduron Penodol

# Crynodeb o ymatebion a phenderfyniadau'r ymgynghoriad

**Rheolau safonol ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016**

Hydref 2018

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

# Dull trwyddedu

Cafodd ein dull trwyddedu ar gyfer y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Canolig ac ar gyfer generaduron penodol ei newid yn dilyn cyhoeddiad Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 ym mis Ionawr 2018.

Roedd ein hymagwedd wreiddiol yn categoreiddio gweithfeydd hylosgi yn ôl math yn seiliedig ar Asesiad Effaith DEFRA a Llywodraeth Cymru (2016), ac roedd y rhain yn cynnwys gweithfeydd hylosgi gweithredol ategol, wrth gefn, risg uchel (pwrpasol) a risg isel. Gwnaethom hefyd seilio ein cynigion codi tâl ar gyfer 2018/19 ar y categorïau hyn gan fod angen i weithfeydd hylosgi newydd fod yn gallu ymgeisio o 20 Rhagfyr 2018.

Gwnaethom ddatblygu wyth rheol risg isel safonol newydd fel amodau mewn trwydded amgylcheddol (y cyfeirir atynt fel trwyddedau rheolau safonol) er mwyn helpu i symleiddio'r cynllun a lleihau nifer y trwyddedau pwrpasol sy'n ofynnol gan gynigion codi tâl 2018/2019.

Er bod yr ymagwedd rheolau safonol a thrwydded bwrpasol yn wahanol i'n cynigion gwreiddiol, rydym yn bwriadu cymhwyso'r mathau o drwyddedau hyn ar gyfer gweithfeydd newydd o 20 Rhagfyr 2018 ymlaen. Teimlwn fod yr ymagwedd hon yn fwy pragmataidd gan ei bod yn osgoi dryswch a datblygiad trwyddedau a chanllawiau unigol dros dro.

# Crynodeb

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 yn ein galluogi i gynnig trwyddedau safonol, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar fusnes a chynnal safonau amgylcheddol ar yr un pryd. Maent wedi'u seilio ar setiau o reolau safonol y gallwn eu cymhwyso'n eang yng Nghymru a Lloegr. Datblygir y rheolau gan ddefnyddio asesiadau o'r risgiau amgylcheddol a gyflwynir gan y gweithgaredd.

Mae'r rheolau yn cymryd cryn dipyn o amser, adnoddau a gwaith ymgynghori i'w datblygu, ond ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith, maent yn gwneud y gwaith o weithredu'r ceisiadau a phenderfynu arnynt yn gymharol hawdd. Y rheswm dros hyn yw oherwydd nad oes angen asesiad risg penodol i'r safle.

Cynigiodd yr ymgynghoriad wyth o reolau safonol ac asesiadau risg newydd mewn perthynas â gweithfeydd hylosgi canolig risg isel a chynhyrchwyr Tranche B penodol. Mae'r Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig (MCPD) a'r Rheoliadau Generaduron Penodol yn darparu rheolaethau cost effeithlon ar allyriadau gweithfeydd hylosgi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae'r gyfarwyddeb yn cael ei chyflwyno fel rheoliadau yng Nghymru a Lloegr, a'i rheoleiddio o dan drwydded amgylcheddol. Mae'r defnydd arfaethedig o reolau safonol yn ddull cymesur o roi trwydded amgylcheddol i'r gweithgaredd hwn. Gwnaethom wahodd sylwadau ar y cynigion rheolau safonol canlynol a ph'un a ddylid caniatáu un drwydded safonol a roddir i weithredwr i gwmpasu nifer o leoliadau ar gyfer y setiau o reolau safonol newydd ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig:

- **SR2018 Rhif 1**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 5MW
- **SR2018 Rhif 2**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 2MW, gyda lefelau uchel o NOx yn y cefndir
- **SR2018 Rhif 3**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 2MW gydag ardaloedd rheoli ansawdd yr aer neu lefel uchel o NOx amgylchynol
- **SR2018 Rhif 4**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, rhwng 1 a 20MW o beiriannau diesel neu nwy wedi'u lleihau a weithredir am lai na 500 awr y flwyddyn
- **SR2018 Rhif 5**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, rhwng 1 a 20MW o beiriannau diesel neu nwy wedi'u lleihau a weithredir am lai na 1,500 awr y flwyddyn
- **SR2018 Rhif 6**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng 1 a 1.2MW, gyda lefelau uchel o NOx yn y cefndir
- **SR2018 Rhif 7**: rheolau safonol ar gyfer gweithfeydd llosgi canolig newydd, risg isel, sefydlog rhwng 1 a <20MW (ar waith ar ôl 20 Rhagfyr 2018)
- **SR2018 Rhif 8**: rheolau safonol ar gyfer generadur penodol gweithfeydd symudol, Tranche B, risg isel, gweithrediad llwyth sylfaenol rhwng <1 a 2MW

Gwnaethom hefyd gynnig diwygiadau i'r pum rheol safonol ganlynol sy'n cael eu heffeithio gan y Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig o 20 Rhagfyr 2018 a darpariaethau generadur penodol o 1 Ionawr 2019:

- **SR2009 Rhif 4**: Llosgi bio-nwy mewn peirannau mewn gweithfeydd trin carthion
- **SR2012 Rhif 10**: Cyfleuster treulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraff o'r fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio bio-nwy canlyniadol – ar gyfer gwaith adennill gwastraff, capasiti trin llai na 100 tunnell o wastraff y dydd
- **SR2012 Rhif 12**: Cyfleuster treulio anaerobig, gan gynnwys defnyddio bio-nwy canlyniadol – ar gyfer gwaith adennill gwastraff, capasiti trin llai na 100 tunnell o wastraff y dydd
- **SR2012 Rhif 9**: Cyfleuster treulio anaerobig ar y fferm gan ddefnyddio gwastraff o'r fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio bio-nwy canlyniadol – gosodiad Rhan A – capasiti dros 100 tunnell o wastraff y dydd
- **SR2012 Rhif 11**: Cyfleuster treulio anaerobig gan ddefnyddio gwastraff o'r fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio bio-nwy canlyniadol – gosodiad Rhan A – capasiti dros 100 tunnell o wastraff y dydd a/neu dros 10 tunnell o garcasau anifeiliaid a gwastraff anifeiliaid bob dydd

# Cynnwys

**Ymgynghoriad Rheolau Safonol Rhif 14: Rheolaethau Gweithfeydd Hylosgi Canolig a Generaduron Penodol** **i**

**1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn** **1**

**2 Cwestiynau ymgynghori** **7**

**3 Taliadau** **9**

**4 Camau nesaf** 11

# 1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae hon yn ddogfen esboniadol sy'n rhoi amlinelliad o'r dogfennau y gwnaethom ymgynghori arnynt, a throsolwg o'r broses drwyddedu safonol. Gwnaethom wahodd sylwadau ar y cynigion gan weithredwyr, cymdeithasau masnach a busnesau, rheoleiddwyr eraill, ac aelodau o'r cyhoedd gyda diddordeb mewn materion amgylcheddol.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 25 Mai 2018 a 17 Awst 2018. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion codi ffioedd ar gyfer 2019–2020 ar gyfer y setiau o reolau safonol hyn yn ein hymgynghoriad codi ffioedd ar gyfer 2019–2020 yn ystod yr hydref.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori ac unrhyw bwyntiau allweddol eraill a gafodd eu lleisio. Mae'n nodi ein hymatebion i bwyntiau a leisiwyd gan yr ymgyngoreion, y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, a'r camau y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad.

## 1.1 Lefel o ymateb

Gwnaethom dderbyn dau ymateb ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus. O'r ddau ymateb:

- Roedd un gan weithredwr
- Roedd un gan gorff/cymdeithas fasnach

## 1.2 Canfyddiadau allweddol a'r camau y byddwn yn eu cymryd

Cytunodd y ddau ymatebydd o ran egwyddor gyda'n hymagwedd i ddefnyddio rheolau safonol ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig a generaduron penodol. Ni wnaeth yr un ymatebwr gefnogi'r cynnig i ganiatáu rhoi un drwydded safonol i weithredwr i gwmpasu nifer o leoliadau ar gyfer setiau o reolau safonol newydd ar gyfer gweithfeydd llosgi canolig.

Rydym yn fodlon, gyda'r diwygiadau priodol (fel y manylir isod), fod y rheolau safonol a'r asesiadau risg newydd a diwygiedig arfaethedig yn briodol ar gyfer y gweithgaredd hwn. Byddwn yn diwygio a gweithredu'r setiau o reolau safonol newydd ac rydym yn bwriadu eu cyhoeddi ym mis Hydref 2018. Nid ydym ar yr adeg hon yn bwriadu gweithredu'r cynnig ar gyfer un drwydded safonol sy'n cwmpasu nifer o leoliadau ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig. Mae hyn oherwydd bod rhai pryderon o hyd ynghylch sut y bydd trwyddedu a chydymffurfio yn gweithredu yn ymarferol a'r angen i sicrhau bod y rheolau safonol ar gael i gael eu defnyddio yn gynnar i weithredwyr allu gwneud cais am drwyddedau newydd.

## 1.3 Ein hymatebion

### 1.3.1 Set o reolau safonol newydd

Oherwydd nifer y newidynnau sy'n gysylltiedig, mae posibilrwydd na fydd rhai safleoedd risg isel o fewn cwmpas y trwyddedau rheolau safonol. Rydym felly'n bwriadu diwygio SR2018

Rhif 6 trwy gynyddu'r cynhwysedd mewnbwn thermol o 1.2 i 1.3MW a chyflwyno'r offeryn sgrinio cais pwrpasol (a ddatblygwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd) i helpu i dynnu cyn lleied o safleoedd risg isel â phosib o fod angen ceisiadau cymhleth pwrpasol sydd angen asesiad modelu manwl. Fodd bynnag, bydd dal angen rhywfaint o geisiadau pwrpasol ar gyfer gweithgareddau risg uwch – er enghraifft, unedau mwy neu unedau llai gyda chyrn simnai wedi'u dylunio'n wael neu wedi'u lleoli mewn lleoliadau â chrynodiadau cefndir uchel.

**Nifer y setiau rheolau**

Dywedodd y ddau ymatebwr fod nifer y rheolau safonol posibl sydd ar gael ar gyfer gweithredwr, a phob un â meini prawf ychydig yn wahanol, yn gwneud y broses ymgeisio yn rhy gymhleth ac y byddai llai o reolau â meini prawf ehangach yn well. Rydym o'r farn y gallai gael meini prawf ehangach wneud y rheolau'n fwy cymhleth ac rydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng bod â rheolau y gellir eu deall a'r gwahanol fathau o drwyddedau rheolau safonol sydd ar gael. Gallai lleihau'r nifer o drwyddedau rheolau safonol hefyd gynyddu'r nifer o geisiadau pwrpasol. Yn ogystal, rydym yn darparu arweiniad ac mae cyngor cyn gwneud cais hefyd ar gael.

Awgrymodd un ymatebydd diwygiad i nodyn rhagarweiniol SR2018 Rhif 4. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y byddai angen i fwy o weithfeydd gael trwyddedau pwrpasol felly nid ydym wedi cynnwys y newid hwn.

Awgrymodd un ymatebwr fod y disgrifiad o'r technolegau ('peiriannau a allai fod yn darparu gwasanaethau cydbwyso') sydd wedi'i gynnwys yn SR2018 Rhif 4 yn amwys a bod angen ei ail-eirio. Mae'r termau a ddefnyddir yn y rheolau safonol yn gyson â'r rheoliadau ac yn caniatáu hyblygrwydd i weithredwyr. Byddai disgrifiadau penodol o dechnolegau sy'n cael eu defnyddio yn lleihau cwmpas y rheolau safonol ac yn arwain at angen i fwy o drwyddedau pwrpasol.

**Cyfrifoldeb gweithredwyr**

Gwnaeth un ymatebwr sylw ynglŷn â chyfrifoldeb gweithredwyr a'r dybiaeth y bydd gweithredwyr yn gwybod nodweddion yr amgylchedd lleol sy'n derbyn yn barod. Mae ein setiau o reolau safonol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, felly er eu bod yn nodi'r hyn yr ydym am i weithredwyr ei wneud, maent yn caniatáu hyblygrwydd i weithredwyr ar sut i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae canllawiau a chyngor cyn gwneud cais ar gael hefyd os oes angen.

**Defnydd o'r term 'nwy naturiol'**

Gwnaeth un ymatebydd sylw ar y defnydd o'r term 'nwy naturiol' a'r perthnasedd i fathau eraill o danwydd. Mae'r termau hyn wedi'u diffinio yn y rheoliadau.

**Datblygu offeryn trwydded rheolau safonol ar-lein**

Awgrymodd un ymatebwr fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu 'adnabyddwr trwyddedau' neu fatrics i helpu gweithredwyr i nodi pa set o reolau safonol sy'n berthnasol iddynt. Er ein bod yn gweld gwerth mewn proses gyfeirio fwy clir, mae gan newidiadau sylweddol y potensial i fod yn waharddol o ran cost oni bai fod manteision sylweddol. Fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer hyn.

**Agosrwydd i SoDdGA**

Dywedodd un ymatebwr nad oedd yn gallu bodloni gofynion y set o reolau safonol oherwydd agosrwydd i SoDdGA. Mae setiau o reolau safonol yn fwriadol generig i ddal cymaint o safleoedd â phosib. Os oes angen gwybodaeth ac amodau sy'n benodol i safle, mae angen trwydded bwrpasol.

**Defnydd o'r term MW**

Cwynodd un ymatebydd am y defnydd amhenodol o'r term MW o fewn y setiau o reolau safonol. Byddwn yn egluro bod hyn yn cyfeirio at fegawatiau o fewnbwn thermol graddedig.

Holodd un ymatebwr a oedd y megawatiau o fewnbwn thermol graddedig yn seiliedig ar werth caloriffig gros neu werth caloriffig net. Rydym yn gallu cadarnhau mai hwn yw'r gwerth caloriffig net a bydd yn cael ei drafod yn yr arweiniad cysylltiedig.

**Y cynnig i ganiatáu i weithfeydd hylosgi canolig sy'n cael eu gweithredu gan weithredwr penodol mewn gwahanol leoliadau gael eu cynnwys mewn un drwydded safonol**

Ni chytunodd unrhyw ymatebwyr i'r cynnig hwn oherwydd pryderon ynghylch ei roi ar waith yn weithredol. Er enghraifft, sut mae gweithgarwch cydymffurfio yn digwydd, rhoi rheolau/amodau ar waith ar gyfer mwy nag un safle, y rheolaethau dros weithfeydd llosgi canolig ar lefel leol, codi tâl am fwy nag un safle, a hyblygrwydd wrth ychwanegu neu ddileu safleoedd o'r drwydded neu drosglwyddo safleoedd i weithredwr arall. Oherwydd y pryderon hyn, rydym wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach ar y cynnig hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r gallu i ymgeisio am nifer o weithfeydd llosgi canolig o dan y drwydded safonol ar gyfer un safle (SR2018 Rhif 7) yn bodoli o hyd.

**Gwres a phŵer cyfunedig (CHP)**

Codwyd cwestiwn ynghylch a ddylai'r rheolau safonol ar gyfer gwres a phŵer cyfunedig nodi fod yn rhaid i weithfeydd o'r fath fodloni safonau rhaglen Sicrhau Ansawdd Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHPQA) y llywodraeth yn 'Safon CHPQA, Rhifyn 16, Hydref 2016'. Ein barn ni yw nad yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r rheolau safonol gan nad oes unrhyw ofyniad yn y rheoliadau. Felly, nid ydym yn awgrymu newid y setiau o reolau safonol i adlewyrchu hyn.

Awgrymodd un ymatebydd fod gweithfeydd gwres a phŵer cyfunedig wedi'u heithrio rhag cyfyngiadau cydbwyso gwasanaethau. Mae'n ofynnol i weithfeydd gwres a phŵer cyfunedig a ddefnyddir ar gyfer cydbwyso gwasanaethau gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig a'r Rheoliadau Generaduron Penodol o'r dyddiad perthnasol. Mae'n debygol y bydd gweithfeydd hylosgi sy'n gweithredu fel rhan o gyfleuster treulio anaerobig yn cael eu cynnwys dan SR2018 Rhif 11, sy'n cynnwys y darpariaethau ar gyfer generaduron penodol.

**Rheoli allyriadau i'r aer**

Awgrymodd un ymatebydd ein bod yn egluro bod NO a NO2 yn cael eu mynegi fel NO2 yn y Nodyn Rhagarweiniol, ond rydym yn teimlo bod Tabl 3.1 yn gwneud hynny'n glir felly nid ydym wedi ailadrodd hyn yn y Nodyn Rhagarweiniol.

Cafodd materion eu lleisio ynghylch a ddylai'r rheolau safonol o dan y Gyfarwyddeb Gweithfeydd Llosgi Canolig gynnwys rheolaethau sy'n cwmpasu NOx, SO2 a llwch, ac nid NO2 yn unig. Mae'r amodau ar danwydd (nwy naturiol ar gyfer pob trwydded rheolau safonol, gyda diesel sylffwr isel iawn yn cael ei ychwanegu at y trwyddedau rheolau safonol ar gyfer terfynau gwerth ar gyfer allyriadau o 190mg/Nm3) a'r gofyniad nad oes unrhyw 'fwg tywyll' parhaus yn golygu bod allyriadau SO2 a PM10 naill ai'n ddibwys neu nad ydynt yn peri'r un risg o fynd dros ben y safon amgylcheddol ag NO2. Mae amodau NO2 felly'n gweithio i amddiffyn y llygryddion eraill hyn. Mae'r pellter i'r derbynnydd agosaf wedi'i deillio gan ddefnyddio modelu gwasgariad, gan dybio'r lleoliadau dan y gwynt gwaethaf. Felly, nid ydym yn bwriadu disodli NO2 gyda NOx, SO2 a llwch yn y setiau o reolau safonol.

**Rheoliadau Cynefinoedd**

Rydym wedi gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gynnal modelu allyriadau ychwanegol ar gyfer y rheol safonol arfaethedig ar gyfer gweithfeydd hylosgi canolig (SR2018 Rhif 7). Mae hyn i fodloni gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Bydd SR2018 Rhif 7 erbyn hyn, ar sail modelu, yn meddu ar y pellteroedd sgrinio canlynol:

| Tanwydd a thechnoleg y gweithfeydd llosgi canolig | Isafswm uchder rhyddhau | Y pellter lleiaf o unrhyw allyriadau yn y tarddle i safle Natura 2000, ACA neu AGA |
|---|---|---|
| **Generaduron diesel nad ydynt wedi cael eu lleihau sy'n llosgi diesel sylffwr isel iawn (sylffwr 10ppm)** | 3m | 500m |
| **Boeleri nwy sy'n llosgi nwy naturiol** | 15m ac o leiaf 2m uwchben yr adeilad agosaf | 900m |
| **Boeleri nwy sy'n llosgi tanwyddau nwy heblaw nwy naturiol** | 15m ac o leiaf 2m uwchben yr adeilad agosaf | 2km |

## 1.3.2 Setiau o reolau safonol diwygiedig

Holodd un ymatebwr yr amrywiad yn y pellteroedd i dderbynyddion o'r gweithgaredd. Mae'r pellter i'r derbynnydd agosaf wedi deillio ar gyfer pob senario gan ddefnyddio modelu gwasgariad a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan dybio'r lleoliadau dan y gwynt gwaethaf.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu pellter corn simdde injan nwy i safle Ewropeaidd neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ac eithrio unrhyw safle a ddynodwyd yn unig ar gyfer nodweddion daearegol) i 500m yn SR2012 Rhif 10 ac SR2012 Rhif 12. Mae'r cynnig hwn yn seiliedig ar fodelu ansawdd aer mwy diweddar, a oedd yn dangos nad yw 200m yn amddiffynnol. Nid oes trwyddedau SR2012 Rhif 10 na Rhif 12 presennol yng Nghymru a fydd yn gofyn am drwydded bwrpasol o ganlyniad i'r newid hwn, felly rydym wedi penderfynu cynnwys y pellter 500m yn SR2012 Rhif 10 a Rhif 12 o fis Hydref 2018.

Dywedodd un ymatebydd fod y drwydded ddiwygiedig SR2009 Rhif 4 yn ei gwneud yn ofynnol i weithfeydd hylosgi canolig presennol sy'n eneraduron Tranche B gwrdd â'r terfynau gwerth SO2 perthnasol ar gyfer allyriadau. Mae'r rheolau arfaethedig yn cynnwys gofynion gweithfeydd llosgi canolig newydd yn ogystal â gofynion generaduron penodol Mae llawer o weithfeydd treulio anaerobig yn gyffredinol yn gynhyrchwyr trydan ac mae ganddynt gytundeb i gynhyrchu ynni i'r Grid Cenedlaethol neu i gynhyrchu pŵer i'r safle neu gyfleuster. Bydd yn ofynnol i weithfeydd hylosgi canolig presennol gydymffurfio â therfynau SO2 ar gyfer > 5 MWth o 1 Ionawr 2025 ac ar gyfer 1 i 5 MWth o 1 Ionawr 2030 a bydd y rheolau yn cael eu hadolygu yn nes ymlaen i ystyried hynny. Bydd rheol safonol SR2018 Rhif 9: Hylosgi bio-nwy mewn peiriannau gweithfeydd hylosgi canolig newydd mewn gweithfeydd trin carthion yn cael ei diwygio i sicrhau bod terfynau SO2 yn berthnasol i weithfeydd hylosgi canolig newydd yn unig.

**Rhifau trwydded newydd ar gyfer trwyddedau rheolau safonol presennol**

O ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r pum trwydded rheolau safonol presennol, mae’r rhifau a theitlau trwydded newydd fel a ganlyn:

| **Rhif a theitl trwydded rheolau safonol blaenorol** | **Rhif a theitl trwydded rheolau safonol diwygiedig** |
|---|---|
| SR2009 Rhif 4 Hylosgi bio-nwy mewn peiriannau mewn gweithfeydd trin carthion | SR2018 Rhif 9 Hylosgi bio-nwy mewn peiriannau gweithfeydd llosgi canolig newydd mewn gweithfeydd trin carthion |
| SR2012 Rhif 9 Cyfleuster treulio anaerobig ar safle fferm sy'n defnyddio gwastraffau fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio'r bio-nwy canlyniadol | SR2018 Rhif 10 Cyfleuster treulio anaerobig ar safle fferm sy'n defnyddio gwastraffau fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio'r bio-nwy canlyniadol |
| SR2012 Rhif 10 Cyfleuster treulio anaerobig ar safle fferm sy'n defnyddio gwastraffau fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio'r bio-nwy canlyniadol | SR2018 Rhif 11 Cyfleuster treulio anaerobig ar safle fferm sy'n defnyddio gwastraffau fferm yn unig, gan gynnwys defnyddio'r bio-nwy canlyniadol |
| SR2012 Rhif 11 Cyfleuster treulio anaerobig, gan gynnwys y defnydd o'r bio-nwy canlyniadol. Gosodiad Rhan A – cynhwysydd trin o dros 100 tunnell y dydd a/neu dros 10 tunnell o garcasau anifeiliaid a gwastraffau anifeiliaid bob dydd | SR2018 Rhif 12 Cyfleuster treulio anaerobig, gan gynnwys y defnydd o'r bio-nwy canlyniadol. Gosodiad Rhan A – cynhwysydd trin o dros 100 tunnell y dydd a/neu dros 10 tunnell o garcasau anifeiliaid a gwastraffau anifeiliaid bob dydd |
| SR2012 Rhif 12 Cyfleuster treulio anaerobig, gan gynnwys y defnydd o'r bio-nwy canlyniadol. Gweithrediad adfer gwastraff – cynhwysydd trin o lai na 100 tunnell o wastraff y dydd | SR2018 Rhif 13 Cyfleuster treulio anaerobig, gan gynnwys y defnydd o'r bio-nwy canlyniadol. Gweithrediad adfer gwastraff – cynhwysydd trin o lai na 100 tunnell o wastraff y dydd |

Ni fydd gweithredwyr yn gallu gwneud cais am SR2009 Rhif 4 ac SR2012 Rhif 9, Rhif 10, Rhif 11 a Rhif 12 mwyach o Hydref 2018. Fodd bynnag, gall gweithredwyr sy'n meddu ar y trwyddedau hyn ar hyn o bryd ddal i wneud cais i amrywio'u trwydded.

## 1.3.3 Cyffredinol

Mae sylwadau cyffredinol na chwmpaswyd uchod wedi'u hystyried isod.

Awgrymodd un ymatebwr ail-eirio diffiniad 'generadur'. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y canllawiau cysylltiedig.

Gwnaethom dderbyn rhai sylwadau cyffredinol ynghylch generaduron diesel nad ydynt wedi cael eu lleihau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer argyfyngau. Mae'r diffiniad o eneraduron wrth gefn yn Atodlen 25B o'r Canllawiau Trwyddedu Amgylcheddol yn nodi 'generadur a weithredir at yr unig ddiben o gynnal cyflenwad pŵer ar safle yn ystod argyfwng ar safle'. Mae angen trwydded ar gyfer generaduron nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer argyfyngau ar y safle am fwy na 50 awr y flwyddyn.

Dywedodd un ymatebwr nad yw SR2018 Rhif 1, Rhif 4 a Rhif 8 ac SR2012 Rhif 11 yn nodi bod angen trwyddedau ar weithfeydd <1MW. Rydym wedi diwygio SR2018 Rhif 1, Rhif 4 a Rhif 8 i gynnwys gweithfeydd <1MW i wneud hyn yn glir. Mae SR2018 Rhif 12 yn nodi 'peiriannau nwy sydd â mewnbwn thermol â gradd agregredig o hyd at 5 megawat', felly rydym yn fodlon fod hyn eisoes yn cwmpasu gweithfeydd <1MW.

Dywedodd un ymatebwr fod rhai gweithfeydd penodol yn annhebygol o gwrdd â'r terfynau gwerth SO2 ar gyfer allyriadau a gofynnodd am estyniad o'r dyddiad cydymffurfio. Mae'r terfynau gwerth ar gyfer allyriadau a'r dyddiadau cydymffurfio yn cael eu cymryd yn uniongyrchol o'r Gyfarwyddeb Gweithfeydd Llosgi Canolig a'r Rheoliadau Generaduron Penodol, felly byddai angen i'r aelod-wladwriaeth ystyried unrhyw newidiadau.

# 2 Cwestiynau ymgynghori

Yr ymgynghoriad hwn yw'ch cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r rheolau safonol hyn. Dylid eu cyhoeddi ym mis Hydref 2018.

Byddem yn croesawu cael eich adborth ar y cwestiynau isod yn benodol:

**Y rheolau safonol ac asesiad risg newydd**

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â'n dull o ddefnyddio rheolau safonol ar gyfer ymdrin â gweithgareddau newydd?

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i weithfeydd hylosgi canolig a weithredir gan weithredwr penodol ac sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol leoliadau ddod o dan un drwydded safonol?

**Cwestiwn 3:** A ydych chi'n deall gofynion y rheolau safonol newydd arfaethedig?

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno â gofynion y rheolau safonol arfaethedig (heb gynnwys unrhyw fesurau a gyflwynir gan SI 2018 Rhif 110, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018)?

**Cwestiwn 5:** A oes unrhyw rwystrau i'r defnydd o reolau safonol?

**Y rheolau safonol ac asesiad risg diwygiedig**

**Cwestiwn 6:** A ydych yn deall ac yn cytuno â gofynion y rheolau safonol diwygiedig?
**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynyddu pellter corn simdde peiriant nwy i safle Ewropeaidd neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (ac eithrio unrhyw safle wedi'i ddynodi'n unig ar gyfer nodweddion daearegol) i 500m yn SR2012 Rhif 10 ac SR2012 Rhif 12?

**Yr effaith ar fusnes**

Rhowch amcangyfrifon o ran amser neu gostau ar gyfer y gweithgareddau canlynol. Rydym yn derbyn mai eich amcangyfrifon gorau yn unig yw'r rhain. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r ymatebion i gwestiynau 8 i 10 fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 8:** Yn nodweddiadol, pa swyddogaethau sydd gan eich staff sy'n gyfrifol am baratoi ceisiadau am drwyddedau a chefnogi gweithgarwch asesu cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd a ganiateir (megis arbenigwr technegol, rheolwr, uwch-swyddog)?

**Cwestiwn 9:** A ydych yn debygol o fynd i unrhyw gostau ariannol trydydd parti wrth baratoi cais am drwydded safonol (megis gorfod llogi ymgynghorwyr, cael cyngor allanol)? Os ydych, rhowch amcangyfrif o'r gost hon mewn punnoedd (£).

**Cwestiwn 10:** Sawl awr yr ydych yn amcangyfrif y bydd yn eich cymryd i wneud y ddau o'r canlynol:

a) paratoi cais am drwydded safonol

b) rhoi cymorth i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cynnal ymweliad asesu cydymffurfiaeth (hynny yw, paratoi ar gyfer yr ymweliad, mynd gyda swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru, a chamau gweithredu dilynol)?

**Cyffredinol**

**Cwestiwn 11:** Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y rheolau arfaethedig hyn nad ydynt wedi cael sylw yn y cwestiynau blaenorol (heb gynnwys unrhyw fesurau a gyflwynir gan SI 2018 Rhif 110, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018.

# 3 Taliadau

Bydd y taliadau, fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad ar gynllun 2018–19, yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer gweithfeydd hylosgi newydd o 20 Rhagfyr 2018 hyd at 30 Mawrth 2019, ond bydd gweithredwyr yn derbyn rheolau safonol neu drwydded bwrpasol yn hytrach na thrwydded sy'n seiliedig ar y math o waith hylosgi.

Bydd angen i weithredwyr ymgyfarwyddo â'r gyfres o drwyddedau rheolau safonol sydd ar gael cyn iddynt wneud cais. Lle nad yw gweithredwyr yn gallu bodloni meini prawf y trwyddedau rheolau safonol, bydd angen iddynt ymgeisio am drwydded bwrpasol seml neu drwydded bwrpasol gymhleth.

Dangosir yn y tabl isod ein ffioedd ymgeisio a pharhau oes trwydded y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Canolig a generaduron penodol ar gyfer 2018/2019.

| Math o drwydded | Ffi ymgeisio | Ffi barhau flynyddol |
|---|---|---|
| Generaduron penodedig pwrpasol | £4,056<br>(â modelu ansawdd aer) | £385 |
| | £1,924<br>(heb fodelu ansawdd aer) | £385 |
| Gwaith hylosgi canolig pwrpasol | £1,196 | Amherthnaso<br>l |
| Gwaith hylosgi canolig risg isel | £676 | £104 |
| Gwaith hylosgi canolig ategol | £156 | £34.67 |
| Gwaith hylosgi canolig wrth gefn | £104 | £17.33 |
| SR2018 Rhif 1 i Rif 6 a Rhif 8 | £156 | £34.67 |
| SR2018 Rhif 7 | £676 | £104 |

Fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad ar gynllun 2018–19, mae'r taliadau yn gofyn i bob generadur penodol feddu ar drwydded bwrpasol. Fodd bynnag, os yw gweithredwr yn gallu bodloni un o'r trwyddedau rheolau safonol newydd ar gyfer generaduron penodol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, maent yn gallu ymgeisio am y rhain am gost cais ar gyfer gwaith hylosgi canolig ategol (£156) nes bydd cynllun codi tâl 2019/2020 yn dod i rym.

Os bydd gweithredwr yn dymuno ymgeisio am waith hylosgi canolig risg isel, ategol neu wrth gefn newydd (nad yw'n generadur penodol) ac nad yw'n gallu bodloni SR2018 Rhif 7, bydd angen iddo ymgeisio am drwydded bwrpasol ar gost gwaith hylosgi canolig pwrpasol (£1,196) hyd nes bydd cynllun codi tâl 2019/2020 yn dod i rym.

Mae dwy ffi ymgeisio am drwyddedau pwrpasol generaduron penodol sy'n dibynnu ar y gofyniad i gyflwyno modelu ansawdd aer gyda'r cais. Mae'r sawl sydd angen

cyflwyno modelu ansawdd aer ac felly sydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal asesiadau ychwanegol neu waith rheoleiddio ychwanegol yn denu'r ffi uwch o £4,056. Mae generadur penodol lle nad oes angen modelu gwasgariad i asesu effaith ei allyriadau i'r aer yn denu'r ffi is o £1,924, gan ei fod yn peri risg isel o'i gymharu â safle lle mae'r angen hwn yn bodoli.

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cynigion taliadau newydd ar gyfer y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Canolig a generaduron penodol ar gyfer 2019/2020, yn seiliedig ar yr ymagwedd rheolau safonol a thrwydded bwrpasol, er mwyn adlewyrchu darpariaethau y Gyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Canolig a generaduron penodol yn well ac i sicrhau bod taliadau yn gymesur â gofynion rheoleiddio. Bydd y cynigion taliadau ar gyfer 2019/2020 yn cael eu cynnwys yn ein hymgynghoriad ar daliadau, a ddisgwylir ym mis Hydref 2018.

Os yw gweithredwyr yn dymuno newid (amrywio), trosglwyddo neu ildio eu trwydded gwaith hylosgi canolig neu eneradur penodol cyn 1 Ebrill 2019, dylent gysylltu â ni trwy anfon neges e-bost at mcpd.queries@naturalresourceswales.gov.uk er mwyn cadarnhau'r taliad perthnasol.

# 4. Camau nesaf

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion o'r ymgynghoriad hwn i lywio unrhyw ddiwygiadau i'r setiau o reolau arfaethedig a'r asesiad risg generig.

Bydd y setiau o reolau safonol newydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ym mis Hydref 2018. Bydd y setiau o reolau safonol diwygiedig hefyd yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref ond bydd cyfnod hysbysu o dri mis ar gyfer deiliaid rheolau safonol presennol cyn i'r rheolau ddod i rym.

Os ydych wedi ymateb ac yn dymuno mynd ar drywydd eich ymateb, neu os hoffech gael mwy o fanylion ar unrhyw bwyntiau a wnaed yn y ddogfen hon, gallwch gysylltu â ni trwy e-bost, ffôn neu'r post:

E-bost permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn 0300 065 3000

Post Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP